

LEWIS, JOHN DAVID (1859 - 1914), llyfryddwr, hanesydd lleol, a sefydlydd gwasg argraffu

Enw: John David Lewis

Dyddiad geni: 1859

Dyddiad marw: 1914

Priod: Hannah Lewis (née Lewis)

Plentyn: Edward Lewis

Plentyn: Rhys Lewis

Plentyn: David Lewis

Rhiant: Hannah Lewis

Rhiant: David Lewis

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: llyfryddwr, hanesydd lleol, a sefydlydd gwasg argraffu

Maes gweithgaredd: Diwydiant a Busnes; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: John Tysul Jones

Unig fab David a Hannah Lewis, Market Stores, Llandysul, a anwyd 22 Ionawr 1859, yn Llandysul, lle y bu fyw ar hyd ei oes. Addysgwyd ef yn Llandysul yn yr ysgolion canlynol: yr ysgol Frytanaid, ysgol breifat a gedwid gan Herbert Jones ym Mhenwalcau (enw t yn y pentref), ac yn ysgol ramadeg [Gwilym Marles](#), 'Coffa yr hwn sydd felys genyf', a dyfynnu geiriau J. D. Lewis ei hunan. Hanoedd ar ochr ei dad o deulu parchus yn nyffryn Cerdin o'r un cyff â'r pregethwr enwog [Christmas Evans](#) ac ar ochr ei fam o deulu o amaethwyr cefnog ym mhlwyf Cilrhedyn. Ymhyfydodd er yn ieuanc yn llên, hanes, a llên gwerin ei ardal, a chasglodd ynghyd gasgliad arbennig o lyfrau, pamffledi a chyfnodolion oedd â chysylltiad ganddynt, yn awduron neu destunau, â Llandysul a'r ardal. Y cariad cynnar hwn at lyfr a llên a barodd iddo ddechrau gwerthu rhai llyfrau, cylchgronau a phapurau Cymraeg ym masnachdy cyffredinol ei dad yn Market Stores, a phenderfynu yn 1892 ddechrau busnes argraffu a chyflogi bachgen ifanc o'r enw William John Jones o Lannerch-y-medd, Sir Fôn, yn argraffydd - g r a fu'n brif argraffydd y Mri J. D. Lewis a'i Feibion o 1892 hyd ei farw yn 1955. Symudwyd o Market Stores i adeilad presennol Gwasg Gomer yn 1894, a throi'r fusnes yn llwyr yn fusnes llyfrwerthwr ac argraffydd. Credir mai edmygedd J. D. Lewis o [Joseph Harris](#) ('Gomer') a barodd iddo alw ei wasg yn Wasg Gomer. Y llyfrau cyntaf a argraffwyd yng Ngwasg Gomer oedd *Hanes Plwyf Llandyssul* ([W. J. Davies](#) 1896), *Hanes Plwyfi Llangelor a Phenboyr* ([Daniel E. Jones](#) 1899), a *Hanes Plwyf Llangunllo* (E. Cunllo Davies 1905). Argraffwyd yma hefyd y misolyn *Cwrs y Byd* (gol. [E. Pan Jones](#)), ac er y flwyddyn 1900 fisolyn Cymdeithas yr Undodiaid, sef *Yr Ymofyn(n)ydd*. Enillodd wobwr yn eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerfyrddin 1911, am 'Gasgliad o Faledi Cymru' ac y mae'r casgliad yn awr yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cyd-weithiodd hefyd â'r diweddar [John Davies](#) (1860 - 1939) ar draethawd buddugol eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth 1916 ar Lenorion Sir Aberteifi, braslun o'u hanes a rhestr gyflawn o'u gweithiau cyhoeddedig rhwng 1600 a 1900' (N.L.W. MS. 8705).

Priododd â Hannah Lewis o Llandysul, a bu iddynt 4 o feibion.

Yr oedd yn Ynad Heddwch, yn un o sefydlwyr Cymdeithas Lyfryddol Cymru, ac yn aelod o'i Chyngor yn 1911. Bu farw 30 Medi 1914, a'i gladdu ym mynwent Eglwys y Bedyddwyr, Pen-y-bont, Landysul, lle y buasai'n ddiakon ac yn drysorydd ar ôl ei dad o'r flwyddyn 1899.

Awdur

John Tysul Jones, (1902 - 1986)

Ffynonellau

Cymru (O.M.E.)

Y Geninen, Hydref 1952, 198-202

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [56397401](#)

Wikidata: [Q20748849](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

